# CYNGOR TREF ABERTEIFI

Cyhoeddi cyfrifon wedi'u harchwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

Mae Rheoliad 15(5) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, erbyn 30 Medi 2025, i Gyngor Tref Aberteifi gyhoeddi ei ddatganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 ynghyd ag unrhyw dystysgrif, barn, neu adroddiad a gyhoeddwyd, a roddwyd neu a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r datganiadau cyfrifyddu, ar ffurf ffurflen flynyddol, wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi ei farn a'i adroddiad archwilio eto ac felly mae'r cyfrifon wedi'u cyhoeddi cyn diwedd yr archwiliad. Cyhoeddir y ffurflen flynyddol ynghyd ag adroddiad a barn yr Archwilydd Cyffredinol pan fydd yr archwiliad wedi'i gwblhau.